# Astudiaeth Achos
# Myfyriwr Gwyddorau Meddygol
## Cyflogwr Lletyol: Labordy Patholeg - Ysbyty Glan Clwyd

**Beth yw GO Wales?**
Mae project 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu siawns o gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

**Am y myfyriwr/myfyrwraig**
Roedd y myfyriwr yn ei flwyddyn olaf, yn astudio Gwyddorau Meddygol a chysylltodd â Go Wales i gael cefnogaeth gan ei fod yn poeni am ei ddyfodol gan nad oedd wedi cael unrhyw brofiad gwaith sy'n gysylltiedig â'r yrfa y mae'n dymuno ei dilyn. Dywedodd y myfyriwr ei fod wedi cael diagnosis o ddyslecsia a dyspracsia a bod hynny'n effeithio ar ei hunan-barch.

---

**Soniwch beth wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan ym mhroject GO Wales??**
*Do'n i ddim yn ymwybodol o broject GO Wales tan i rywun o'r gwasanaethau myfyrwyr ym Mangor ei argymell i fi. Ro'n i'n cyrraedd diwedd fy nghwrs ac yn poeni na fyddai gradd ar ei phen ei hun yn ddigon i fy helpu i gael y swydd yr o'n i eisiau. Ar ôl dysgu mwy am y project a sylwi fod modd i fi gymryd rhan, fe wnes i sylweddoli mai dyma oedd y ffordd i fi gael y profiad neu'r lleoliad gwaith yr oeddwn ei angen fel bod mwy na dim ond gradd ar fy CV.*

**Pa fath o waith rydych chi wedi'i wneud yn ystod eich lleoliad?**
*Cefais leoliad gwaith yn Ysbyty Glan Clwyd yn y labordai patholeg ac yn fwy penodol yn yr adran histoleg. Roedd y lleoliad yn wych, oherwydd cyn i mi ddechrau, roedden nhw eisiau gwybod sut ro'n i'n gweithio orau, ac fe wnes i fwynhau gwaith mwy ymarferol mewn labordy ac felly fe ges i fy rhoi yn yr adran histoleg.*

**Pa mor berthnasol yw'r lleoliad gwaith i'r llwybr gyrfa yr ydych yn dymuno ei ddilyn?**
*Mae'r profiad gwaith yn amhrisiadwy i'r swydd rydw i eisiau ei gwneud. Mae'r profiad yn atyniadol i gyflogwyr gan eich bod wedi gweithio mewn labordy gweithredol sy'n brofiad nad ydych yn ei gael drwy wneud gradd yn unig. Mae hefyd yn gyfle i ddysgu llawer o bethau y gellir eu cymhwyso i unrhyw swydd mewn labordy.*

***Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y rôl hon?***
*Roedd y profiad ei hun yn ddiddorol iawn. Mae beth rydych chi'n ei gael allan o'r profiad yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o ymdrech yr ydych chi yn ei roi i mewn a pha mor ymarferol yr ydych chi eisiau bod. Ro'n i'n hapus iawn fy mod i'n cael dysgu sgiliau sy'n berthnasol i waith mewn labordy.*

**Fedrwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd yr ydych wedi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu??**
*Sgiliau defnyddio offer a thechnegau labordy mewn gwahanol elfennau o waith labordy. Hefyd mi wnes i wella fy sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm. Mae rhywun yn cyfarfod ac yn gweithio â chynifer o staff gofal iechyd eraill nes bod angen i chi allu cydweithio'n effeithiol ac fe wnes i sylwi wrth i amser fynd yn ei flaen fod y sgiliau hyn yn rhai hanfodol.*

**Wnaethoch chi lwyddo i ddefnyddio unrhyw beth yr ydych chi wedi'i ddysgu fel rhan o'ch cwrs yn y Brifysgol tra oeddech ar leoliad gwaith?**
*Do, roedd peth o'r wybodaeth theoretig yn ddefnyddiol iawn a deall rhai o'r cysyniadau y dewch ar eu traws yn y labordy, megis staeniau histoleg arbennig ac anatomeg ddynol sylfaenol*

**A ydych yn teimlo bod y profiad gwaith hwn wedi eich helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau y gwnaethoch eu disgrifio cyn dechrau ar y project?** ?
*Yn bendant, un o'r prif rwystrau oedd nad oedd gen i unrhyw brofiad o wneud gwaith oedd yn berthnasol i'r maes yr o'n i yn ei astudio. Dwi'n ofnadwy o ddiolchgar fy mod i wedi cael cyfle i wneud y lleoliad, a dwi'n bwriadu aros yno i gael deall mwy a chael mwy o brofiad fel bod gen i fwy i'w gynnig i ddarpar gyflogwyr yn y dyfodol.*

**Do you feel this work opportunity has helped you overcome some of the barriers you described before starting with the project**?
*Definitely one of my main barriers was not having any experience or work that related to my field of study. I am so extremely grateful that I was able to undergo the placement, and have the opportunity to stay on at the laboratory (after my time with GO Wales had finished) to increase my own knowledge and the experience I could offer potential future employers.*

**Beth oedd uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?**
*Cyfarfod â staff gofal iechyd mor anhygoel. Dwi'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am fod mor barod i rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth efo fi. Hefyd, gweld cymaint o sgil a gwaith caled sy'n mynd i mewn i redeg un o wasanaethau hanfodol y GIG a gweld sut y mae'n cael ei reoli.*

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?**
*Ewch amdani. Roedd y gefnogaeth ges i gan yr adran GO Wales ym Mangor yn rhyfeddol, ac fe wnaethon nhw helpu gyda'r broses o wneud cais am leoliad gwaith a galluogi i hynny ddigwydd. Hefyd, byddwch yn barod i weithio'n galed. Mae'r lleoliad yn rhoi'r cyfle i chi ddangos i gyflogwyr beth fedrwch chi ei gynnig iddyn nhw, felly ewch yno, gweithio'n galed a mynnu llwyddo.*

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *

**Dywedodd y Cynghorydd GO Wales** "*Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r tîm yn y Labordy Patholeg yn Ysbyty Glan Clwyd am roi croeso i'r myfyriwr. Mi hoffen ni hefyd ddiolch i dîm "Camu i Mewn i Waith" y GIG am eu help yn trefnu'r lleoliad a'r cwrs cynefino, y modiwlau e-ddysgu a'r gofynion iechyd galwedigaethol sy'n ofynnol cyn y gall unrhyw un gychwyn ar leoliad gwaith. Mae wedi bod yn bleser cael cefnogi'r myfyriwr drwy gydol y broses a gweld cystal y mae o wedi gwneud mewn cyn lleied o amser. Yn ddiweddar, fe ymgeisiodd y myfyriwr am Hyfforddai Gwyddonydd Biofeddygol gyda'r GIG, ac fe lwyddwyd i gurro 170 o ymgeiswyr i gyrraedd y rhestr fer. Roeddem yn falch iawn o glywed bod ei gais wedi bod yn llwyddiannus*."